

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**14/02/2007**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cynnwys**  
**Contents**

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Questions to the Minister for Health and Social Services
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon  
Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**  
**Questions to the Minister for Health and Social Services**

**Gwella Gwasanaethau Canser**  
**Improving Cancer Services**

**Q9 Lynne Neagle:** Will the Minister make a statement on how the Welsh Assembly Government proposes to improve cancer services in Wales? OAQ1237(HSS)

**C9 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu gwella gwasanaethau cancer yng Nghymru? OAQ1237(HSS)

**The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons):** 'Designed to Tackle Cancer in Wales' sets out the Assembly Government's policy aims for tackling cancer. Our strategy for delivery, improving access to high quality services and ensuring the best possible outcomes is through the progressive implementation of the national cancer standards and the National Institute for Health and Clinical Excellence's service guidance.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Mae 'Cynllun i Fynd i'r Afael â Chanser yng Nghymru' yn nodi amcanion polisi Llywodraeth y Cynulliad o ran mynd i'r afael â chanser. Er mwyn gweithredu'r polisi, gwella mynediad at wasanaethau o safon, a sicrhau'r canlyniadau gorau posib, yr ydym yn rhoi ar waith yn gynyddol y safonau cancer cenedlaethol a chanllawiau gwasanaeth y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol.

**Gwella Iechyd Plant a Phobl Ifanc Anabl**  
**Improving the Health of Children and Young People**

**Q10 Val Lloyd:** What is the Welsh Assembly Government doing to improve the health of children and young people in Wales? OAQ1240(HSS)

**C10 Val Lloyd:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella iechyd plant a phobl ifanc yng Nghymru? OAQ1240(HSS)

**Brian Gibbons:** The Welsh Assembly Government is promoting and supporting healthy lifestyles among young people through the Welsh network of healthy schools schemes. Additionally, we launched the food and fitness implementation plan last year.

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo ac yn cefnogi ffyrdd iach o fyw ymysg pobl ifanc drwy rwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach. Yn ogystal â hyn, lansiwyd ein cynllun gweithredu bwyd a ffitrwydd y llynedd.

### **Buddsoddi Investment**

**Q11 Jenny Randerson:** Will the Minister make a statement on investment in the Welsh ambulance service? OAQ1242(HSS)

**C11 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddi yng ngwasanaeth ambiwlans Cymru? OAQ1242(HSS)

**Brian Gibbons:** The Welsh Assembly Government made £16 million of capital funding available for the Welsh Ambulance Services NHS Trust in November 2006 to purchase 119 new emergency ambulances and 67 patient care services vehicles. The trust is also to receive a further £55 million to purchase new radios, which demonstrates our commitment to helping to improve performance and response times.

**Brian Gibbons:** Darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £16 miliwn o arian cyfalaf i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru ym mis Tachwedd 2006, er mwyn prynu 119 ambiwlans brys newydd a 67 cerbyd gwasanaethau gofal i gleifion. Bydd yr ymddiriedolaeth hefyd yn cael £55 miliwn pellach i brynu radios newydd, sy'n dangos ein hymrwymiad i wella perfformiad ac amseroedd ymateb.

### **Darparu Gwasanaethau Iechyd The Delivery of Health Services**

**Q12 Helen Mary Jones:** Will the Minister make a statement on the delivery of health services in Mid and West Wales? OAQ1260(HSS)

**C12 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau iechyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ1260(HSS)

**Brian Gibbons:** The provision of NHS services falls in line with the details of 'Designed for Life'. Any change must be measured against the ambition of delivering sustainable, safe, world-class health and social care for all residents by 2015.

**Brian Gibbons:** Darperir gwasanaethau'r GIG yn unol â manylion 'Cynllun Oes'. Rhaid mesur unrhyw newid yn erbyn yr uchelgais o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy a diogel o safon byd i holl drigolion Cymru erbyn 2015.

### **Blaenoriaethau ar gyfer Iechyd Priorities for Health**

**C13 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer iechyd? OAQ1263(HSS)

**Q13 Ieuan Wyn Jones:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities for health? OAQ1263(HSS)

**Brian Gibbons:** One of the Assembly's prime aims is to support improvements in patient access to NHS services, and recent years have seen a significant improvement in the way in which healthcare services are

**Brian Gibbons:** Un o brif amcanion y Cynulliad yw cefnogi gwelliannau o ran mynediad cleifion at wasanaethau'r GIG, ac mae'r sefyllfa wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf o ran sut y mae

planned, delivered and managed. We are also tackling health inequalities, increasing capacity, supporting NHS staff, and dealing with emergency pressures.

gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu cynllunio, eu darparu a'u rheoli. Yr ydym hefyd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, yn cynyddu gallu, yn cefnogi staff y GIG ac yn mynd i'r afael â phwysau argyfwng.

### **Gwella Gwasanaethau'r GIG Improving NHS Services**

**Q14 Laura Anne Jones:** Will the Minister make a statement on what is being done to improve NHS services in Wales? OAQ1251(HSS)

**C14 Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn sy'n cael ei wneud i wella gwasanaethau'r GIG yng Nghymru? OAQ1251(HSS)

**Brian Gibbons:** The provision of NHS services falls in line with the details of 'Designed for Life'. Any change must be measured against the ambition of delivering sustainable, safe, world-class health and social care for all residents by 2015.

**Brian Gibbons:** Darperir gwasanaethau'r GIG yn unol â manylion 'Cynllun Oes'. Rhaid mesur unrhyw newid yn erbyn yr uchelgais o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy a diogel o safon byd i holl drigolion Cymru erbyn 2015.

### **Gwella Gwasanaethau Iechyd Improving Health Services**

**Q15 Denise Idris Jones:** Will the Minister make a statement on improving health services in Wales? OAQ1233(HSS)

**C15 Denise Idris Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella gwasanaethau iechyd yng Nghymru? OAQ1233(HSS)

**Brian Gibbons:** The provision of NHS services falls in line with the details of 'Designed for Life'. Any change must be measured against the ambition of delivering sustainable, safe, world-class health and social care for all residents by 2015.

**Brian Gibbons:** Darperir gwasanaethau'r GIG yn unol â manylion 'Cynllun Oes'. Rhaid mesur unrhyw newid yn erbyn yr uchelgais o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy a diogel o safon byd i holl drigolion Cymru erbyn 2015.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport**

### **Ffilmiau Cymreig Welsh Film**

**Q3 Jenny Randerson:** Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government support for Welsh film? OAQ1175(CWS) *Transferred for written answer by the Minister for Enterprise, Innovation and Networks.*

**C3 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i ffilmiau Cymreig? OAQ1175(CWS) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau.*

**The Minister for Enterprise, Innovation and Networks (Andrew Davies):** There is considerable support to the film industry in

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Mae'r diwydiant ffilm yng Nghymru yn cael cryn

Wales, both practical and financial, including the IP fund, support provided by the Film Agency for Wales, the Wales Screen Commission and Creative Business Wales.

gefnogaeth yn ymarferol ac yn ariannol, gan gynnwys y gronfa IP, cefnogaeth a ddarperir gan Asiantaeth Ffilm Cymru, Comisiwn Sgrîn Cymru a Busnes Creadigol Cymru.

*Atebwyd cwestiynau 4 i 12 yn y Cyfarfod Llawn.  
Questions 4 to 12 were answered in Plenary.*

### **Cymdeithas Bêl-droed Cymru The Football Association of Wales**

**C13 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru? OAQ1173(CWS) [W]

**Q13 Owen John Thomas:** What discussions has the Minister had recently with the Football Association of Wales? OAQ1173(CWS) [W]

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Fel yr adroddais wrth y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar 7 Chwefror, cefais gyfarfod yn ddiweddar gyda llywydd ac ysgrifennydd cyffredinol Cymdeithas Bêl-droed Cymru i drafod amryw o faterion, gan gynnwys polisi iaith Gymraeg newydd y Gymdeithas.

**The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh):** As I reported to the Culture, Welsh Language and Sport Committee on 7 February, I met recently with the president and secretary general of the Football Association of Wales to discuss a range of issues including the FAW's new Welsh language policy.

### **Cyfle Cyfartal Equality of Opportunity**

**Q14 Laura Anne Jones:** How is the Minister ensuring equality of opportunity throughout sport in Wales? OAQ1151(CWS)

**C14 Laura Anne Jones:** Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau cyfle cyfartal drwy holl faes chwaraeon yng Nghymru? OAQ1151(CWS)

**Alun Pugh:** I have made it clear in 'Climbing Higher: Next Steps' that I expect all key partners involved in helping to drive forward our 'Climbing Higher' agenda to have equality plans and to target appropriate levels of investment' to ensure that access to sport is available to all people in Wales.

**Alun Pugh:** Yr wyf wedi egluro yn 'Dringo'n Uwch: Camau Nesaf' fy mod yn disgwyl i bob partner allweddol sy'n helpu i ddatblygu ein hagenda 'Dringo'n Uwch' gael cynlluniau cydraddoldeb a thargedu buddsoddiad priodol, i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael yr un cyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon.

### **Cymraeg ym Myd Busnes Welsh in the Business World**

**C15 Alun Ffred Jones:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ym myd busnes? OAQ1172(CWS) [W]

**Q15 Alun Ffred Jones:** What steps has the Minister taken to increase the use of Welsh within the business world? OAQ1172(CWS) [W]

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn hyrwyddo'r Gymraeg yn y byd busnes mewn ffordd bositif, ac mae nifer o gwmnïau yn y sector preifat yn ymateb i hyn drwy ddefnyddio'r iaith ar sail wirfoddol. Mae

**Alun Pugh:** The Assembly Government is promoting the Welsh language in the business world in a positive way, and a number of private sector companies are using the Welsh language voluntarily as a response

Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn sefydlu uned sector preifat i ganolbwyntio'n benodol ar y gwaith hwn.

to this. The Welsh Language Board is setting up a specific private sector unit to focus on this work.